

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus 2010: Y goblygiadau i Gymru

Rhagfyr 2010

Mae'r *Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus* wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar gerbron Tŷ'r Arglwyddi yn San Steffan. Dyma brif ddull Llywodraeth y DU ar gyfer gwneud y toriadau a ddywedodd y byddai'n eu gwneud i gyrff cyhoeddus anadrannol. Mae'n Fesur Seneddol sy'n 'galluogi' gan fod ei ddarpariaethau'n rhoi'r pwerau i wneud Gorchmynion i Weinidogion mewn perthynas â'r cyrff a restrir yn y Mesur. Gallai hyn gynnwys eu haddasu, eu cyfuno neu eu diddymu.

Mae'r papur hwn yn crynhoi darpariaethau'r Mesur Seneddol a'r ymateb seneddol. Mae hefyd yn amlygu materion datganoli cyffredinol a godwyd mewn perthynas â'r Mesur Seneddol a materion sydd o bwys penodol i Gymru, gan gynnwys pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chyrff amgylcheddol a'r ffaith bod S4C wedi'i gynnwys yn y Mesur.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff
Cyhoeddus 2010: Y goblygiadau i Gymru

Alys Thomas

Rhif dogfen: 10/070

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Crynodeb

Mae'r papur hwn yn gwneud y canlynol:

- Crynhoi cynnwys y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus, sydd wedi cael ei Ail Ddarlleniad ar ôl iddo gael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi.
- Crynhoi'r ymateb seneddol yn Nadl yr Ail Ddarlleniad a hefyd mewn adroddiadau gan bwyllgorau Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad ac ar Ddeddfwriaeth Ddirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol.
- Amlygu ymhle mae materion ynghylch datganoli yn gyffredinol wedi cael eu codi mewn perthynas â'r Mesur Seneddol.
- Amlygu'r darpariaethau sydd o ddiddordeb penodol i Gymru, yn arbennig y pwerau i Weinidogion Cymru uno cyrff amgylcheddol a'r ffaith bod S4C wedi'i gynnwys yn y Mesur.

Cynnwys

| | | |
|-----------|---|-----------|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus [Tŷ'r Arglwyddi] | 2 |
| 2.1. | Darpariaethau'r Mesur Seneddol..... | 2 |
| 2.2. | Ymateb seneddol | 5 |
| 3. | Materion datganoli | 9 |
| 4. | Y goblygiadau i Gymru | 10 |
| 4.1. | Y pwerau i Weinidogion Cymru greu corff amgylcheddol newydd | 10 |
| 4.2. | S4C..... | 12 |
| 4.3. | Uno Sport England ac UK Sport | 15 |
| 4.4. | Y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr | 16 |
| 4.5. | Dyfrffyrdd Prydain | 17 |
| 4.6. | Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy..... | 18 |
| 4.7. | Y goblygiadau i gyrff eraill sy'n gweithredu yng Nghymru | 19 |

Y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus [Tŷ'r Arglwyddi]: y goblygiadau i Gymru

1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y *Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus* yn Araith y Frenhines ar 25 Mai. Dywedwyd mai prif elfennau'r Mesur oedd:

- Sicrhau mwy o atebolrwydd, tryloywder ac effeithlonrwydd yn Llywodraeth y DU drwy leihau nifer y cyrff cyhoeddus (cwangos), a'u cost.
- Rhoi pwerau i Weinidogion y DU ddiddymu neu uno'r cwangos, neu eu trosglwyddo'n ôl i'r Adrannau. Ar 31 Mawrth 2009, roedd 766 o gyrff cyhoeddus anadrannol, y mae rhai ohonynt yn berthnasol i Loegr yn unig neu i Gymru a Lloegr, tra bo eraill yn berthnasol i'r DU gyfan. Maent yn gwario dros £46 biliwn y flwyddyn ac yn cyflogi dros 110,000 o bobl.
- Adolygu swyddogaethau'r holl gyrff cyhoeddus bob tair blynedd, yn hytrach na'r arfer presennol o wneud hynny bob pum mlynedd. Bydd yr adolygiad yn cynnwys y prawf a ganlyn: 'A yw'r swyddogaeth yn un dechnegol; a oes angen iddi fod yn ddiuedd yn wleidyddol; ac a oes angen penderfynu ar y ffeithiau mewn modd tryloyw?'¹

Ar 14 Hydref 2010, cyflwynodd y Gwir Anrhydeddus Francis Maude AS, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, grynodedb o'r cynlluniau i ddiwygio cannoedd o gyrff cyhoeddus yn sylweddol fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth y DU i wneud newidiadau i gyrff cyhoeddus. **Cynigiodd y dylid diwygio 481 o gyrff. O'r cyfanswm hwnnw, bydd 192 ohonynt yn peidio â bod yn gyrff cyhoeddus a bydd eu swyddogaethau naill ai'n cael eu trosglwyddo yn ôl i'r Llywodraeth, yn cael eu datganoli i lywodraeth leol, yn peidio â bod yn rhan o'r Llywodraeth neu'n cael eu diddymu'n gyfan gwbl. Bydd 118 o gyrff cyhoeddus eraill yn cael eu huno i greu 57 o gyrff a bydd 171 o gyrff eraill yn cael eu diwygio'n sylweddol.**² Mae rhestr lawn ar gael [yma](#).

Cyflwynwyd y Mesur Seneddol yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 29 Hydref. Eglurodd Datganiad i'r Wasg gan Swyddfa'r Cabinet:

The Bill will enable the reforms to public bodies to be implemented where legislation is needed. It is necessary because some bodies that are due to be reformed were set up in legislation, so new powers are needed to be able to abolish or merge them, transfer or devolve their functions, or reform the way they operate.

¹ Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, *Araith y Frenhines 2010*, Papur Ymchwil, Mai 2010.

² [Swyddfa'r Cabinet, *New legislation introduced to enable Quango reform, Datganiad i'r Wasg gan Swyddfa'r Cabinet 185-10, 29 Hydref 2010*](#)

In addition, the Bill contains a schedule listing a number of public bodies which were part of the review process and which would need legislation to make any reforms to them in the future. The list includes bodies for which there are no plans to reform. This is to ensure that, if the Government wishes to make changes to these bodies in the future following further review processes, the necessary legal framework will already be in place.³

Felly, mae'r *Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus* yn Fesur galluogi, sy'n golygu mai nad y Mesur Seneddol ei hun fydd yn gwneud unrhyw newidiadau i gyrff cyhoeddus. Fe fydd, serch hynny:

- Yn creu fframwaith cyfreithiol a fydd yn galluogi adrannau Llywodraeth y DU i weithredu'r mwyafrif o'r diwygiadau i gyrff cyhoeddus y mae angen deddfwriaeth i'w gwneud nad ydynt wedi'u cynnwys eisoes mewn Mesurau Seneddol adrannau eraill.
- Yn creu pwerau deddfwriaethol sy'n galluogi Gweinidogion i ddiddymu neu uno cyrff; addasu trefniadau cyfansoddiadol neu ariannol corff; neu drosglwyddo ei swyddogaethau i fan arall.
- Yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i Ysgrifenyddion Gwladol wneud newidiadau i'w cyrff gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth pan fyddant yn barod i wneud hynny.

Mae'r Mesur Seneddol yn berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gall Gorchymyn a wneir o dan y Mesur sy'n addasu deddfwriaeth fod yn berthnasol hefyd i'r gwledydd datganoledig.⁴

Diben y papur hwn yw nodi darpariaethau'r Mesur Seneddol sy'n berthnasol i Gymru. Mae rhai o'r rhain eisoes wedi denu sylw, er enghraifft, dyfodol S4C a'r cyrff amgylcheddol. Fodd bynnag, bydd materion ehangach sy'n ymwneud â datganoli'n gyffredinol hefyd yn cael eu trafod yn fanylach.

2. Y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus [Tŷ'r Arglwyddi]

2.1. *Darpariaethau'r Mesur Seneddol*

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, mae'r *Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus* yn Fesur **galluogi** sy'n rhoi cyfres o bwerau i Weinidogion. Ceir crynodeb o ddarpariaethau'r Mesur isod.

Mae **cymal 1** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU wneud darpariaeth drwy Orchymyn i **ddiddymu** unrhyw gorff neu swydd a restrir yn **Atodlen 1**.

³ [Swyddfa'r Cabinet, *New legislation introduced to enable Quango reform*, Datganiad i'r Wasg gan Swyddfa'r Cabinet 185-10, 29 Hydref 2010](#)

⁴ [Y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus \[Mesur Tŷ'r Arglwyddi 25\], Nodiadau Esboniadol \[darllenwyd ar 12 Tachwedd 2010\]](#)

Mae **cymal 2** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU wneud darpariaeth drwy Orchymyn i **uno** unrhyw grŵp o gyrrff neu swyddi (neu'r ddau) a restrir yn **Atodlen 2**.

Mae **cymal 3** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU wneud darpariaeth drwy Orchymyn i **addasu trefniadau cyfansoddiadol** unrhyw gorff neu swydd a restrir yn **Atodlen 3**.

Mae **cymal 4** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU wneud darpariaeth drwy Orchymyn i **addasu trefniadau ariannu** corff neu swydd a restrir yn **Atodlen 4**.

Mae **cymal 5** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU wneud darpariaeth drwy Orchymyn i **addasu swyddogaethau corff neu ddeiliad swydd**, neu i **drosglwyddo swyddogaethau corff neu ddeiliad swydd** i berson cymwys. Yn y naill achos a'r llall, rhaid i'r corff neu'r swydd fod wedi'i rhestru yn Atodlen 5.

Mae **cymal 6** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU wneud darpariaeth drwy Orchymyn i awdurdodi corff neu ddeiliad swydd a restrir yn **Atodlen 6** i **ddirprwyo rhai o'i swyddogaethau neu ei holl swyddogaethau** i berson cymwys.

Mae **cymal 7** yn darparu y gall Gorchymyn o dan gymalau 1-6 gynnwys **darpariaethau neu arbedion canlyniadol, cysylltiedig neu drosiannol**.

Mae **cymal 8** yn nodi'r amcanion y mae'n rhaid i Weinidogion y DU eu hystyried wrth wneud Gorchymynion o dan gymalau 1-6. Y rhain yw: sicrhau mwy o **effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb** wrth weithredu swyddogaethau cyhoeddus; a **sicrhau atebolrwydd addas i Weinidogion** wrth weithredu swyddogaethau o'r fath.

Mae **cymal 9** yn **cyfyngu ar bwerau Gweinidogion y DU mewn perthynas â materion datganoledig**. Trafodir hyn yn fanylach yn Adran 3 o'r papur hwn.

Mae **cymal 10** yn nodi'r weithdrefn sy'n berthnasol i unrhyw Orchymyn a wneir o dan gymalau 1-6 o'r Mesur Seneddol. Mae'n nodi bod yn rhaid i'r Senedd gymeradwyo Gorchymyn o'r fath drwy ddefnyddio'r **weithdrefn gadarnhaol**.

Mae **cymal 11** yn gwneud darpariaethau i Weinidog ychwanegu corff neu swydd a nodir yn Atodlen 7 at Atodlenni eraill.

Mae **cymal 12** yn nodi'r ffurf a'r weithdrefn sy'n berthnasol i unrhyw Orchymyn a wneir o dan gymal 11 o'r Mesur.

Mae cymalau 13-16 yn rhoi'r pŵer, drwy Orchymyn, i Weinidogion Cymru **addasu a throsglwyddo swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth sy'n**

berthnasol i Gymru, ac yn gwneud darpariaethau cysylltiedig. Trafodir y rhain yn fanylach yn Adran 4.

Mae **cymal 17** yn ymwneud â'r pwerau sy'n gysylltiedig â **swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Gorchymyn sy'n diwygio Deddf Coedwigaeth 1967** mewn perthynas â gweithredu swyddogaethau penodol, gan gynnwys y rheiny ar gyfer rheoli, defnyddio, gosod a gwaredu tir coedwigaeth.

Mae **cymal 18** yn caniatáu, **drwy Orchymyn, i'r Ysgrifennydd Gwladol addasu trefniadau cyfansoddiadol y Comisiwn Coedwigaeth**; i addasu ei swyddogaethau mewn perthynas â thir yn Lloegr; i drosglwyddo'r swyddogaethau hynny; ac i'w dirprwyo i rywun arall.

Mae **cymal 19** yn nodi bod Gorchymyn a wneir o dan gymal 17 neu 18 yn destun i'r weithdrefn gadarnhaol yn nau Dy'r Senedd.

Mae **cymal 20** yn nodi na all Gorchymyn a wneir o dan ddarpariaethau blaenorol y Mesur Seneddol greu nac awdurdodi'r hawl i greu'r pwerau i gael mynediad drwy orfodaeth, chwilio nac atafaelu, y pŵer i annog rhywun i roi tystiolaeth, na'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth.

Mae **cymal 21** yn cyfyngu ar y pwerau i wneud Gorchymynion yn narpariaethau blaenorol y Mesur Seneddol mewn perthynas â throsglwyddo neu ddirprwyo swyddogaethau i bersonau cymwys nad oes ganddynt swyddogaethau cyhoeddus eisoes.

Mae **cymal 22** yn cyfyngu ar y pwerau i wneud Gorchymynion yn narpariaethau blaenorol y Mesur Seneddol mewn perthynas â **chreu tramgwydd troseddol (neu awdurdodi'r gallu i greu tramgwydd o'r fath)**.

Mae **cymal 23** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru o dan gymal 13, ac i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 18(1)(c) **i wneud cynllun i drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau i Weinidogion** mewn perthynas â Gorchymyn o dan gymalau 1-6.

Mae **cymal 24** yn nodi **y gellir cynnwys cynlluniau trosglwyddo yn y Gorchymyn** y maent yn berthnasol iddo. Os na chant eu cynnwys mewn Gorchymyn, **rhaid eu gosod gerbron y corff deddfu priodol**.

Mae **cymal 25** yn rhoi'r pŵer i'r Trysorlys wneud darpariaeth drwy Orchymyn i amrywio'r modd y bydd darpariaethau treth yn cael eu rhoi ar waith naill ai ar gyfer unrhyw beth a drosglwyddir o dan gynllun a wneir o dan gymal 23, neu unrhyw beth a wneir at y diben o wneud trosglwyddiad o dan gynllun o'r fath, neu mewn perthynas â throsglwyddiad o'r fath.

Mae gan **gymal 26** ddarpariaethau mewn perthynas â chwmpas y pŵer i ddiwygio Atodlen 1 i *Ddeddf Blwydd-daliadau 1972*.

Mae **cymalau 27 a 28** yn ymdrin â darpariaethau atodol a dehongli ystyr o fewn y Mesur Seneddol.

Mae **cymal 29** yn ymdrin â **chwmpas** y Mesur Seneddol. Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi:

Generally, the Bill extends to the whole of the United Kingdom. *Subsection (2)* provides that an order made under this Bill which repeals, revokes or amends any enactment extending outside England, Scotland, Wales or Northern Ireland may have the same extent as the original enactment. For example, an order which amends an Act of Parliament which extends to the Channel Islands would have the same extent as the amended Act.⁵

Mae **Atodlen 1** yn nodi'r cyrff a'r swyddi y mae'r pŵer i ddiddymu a ddisgrifir yng nghymal 1 yn berthnasol iddynt.

Mae **Atodlen 2** yn nodi'r grwpiau o gyrrff a swyddi y mae'r pŵer i uno a ddisgrifir yng nghymal 2 yn berthnasol iddynt.

Mae **Atodlen 3** yn nodi'r cyrff a'r swyddi y mae'r i'r pŵer i addasu'r trefniadau cyfansoddiadol a ddisgrifir yng nghymal 3 yn berthnasol iddynt.

Mae **Atodlen 4** yn nodi'r cyrff a'r swyddi y mae'r pŵer i addasu'r trefniadau ariannu a ddisgrifir yng nghymal 4 yn berthnasol iddynt.

Mae **Atodlen 5** yn nodi'r cyrff a'r swyddi y mae'r pŵer i addasu neu drosglwyddo'r swyddogaethau a ddisgrifir yng nghymal 5 yn berthnasol iddynt.

Mae **Atodlen 6** yn nodi'r cyrff a'r swyddi y mae'r pŵer i awdurdodi dirprwyo, fel y disgrifir yng nghymal 6 yn berthnasol iddynt.

Mae **Atodlen 7** yn nodi'r cyrff a'r swyddi y mae'r pŵer i ychwanegu Atodlenni eraill, fel y disgrifir yng nghymal 11 yn berthnasol iddynt. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys y cyrff a'r swyddi nad oes bwriad mewn polisi i wneud unrhyw newidiadau i'w statws na'u swyddogaethau (pan luniwyd y Mesur).

2.2. *Ymateb seneddol*

Cyflwynodd Pwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi ("y Pwyllgor Cyfansoddiadol") adroddiad ar y Mesur Seneddol ar 4 Tachwedd 2010 a chafodd y Mesur ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Tachwedd 2010.

⁵ [Y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus \[Mesur Seneddol Tŷ'r Arglwyddi 25\], Nodiadau Esboniadol \[darllenwyd ar 12 Tachwedd 2010\]](#)

Nododd y Pwyllgor Cyfansoddiadol fod y mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus yn y Mesur Seneddol wedi'u creu drwy statud.⁶ Felly, mae'r Mesur Seneddol yn estyn pwerau'r Gweinidogion i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy Orchymyn yn sylweddol. Cyfeirir yn gyffredinol at y pwerau hyn fel pwerau 'Harri'r VIII'. Nodir ymhellach:

We have several times in recent years reported on the extended use of such powers. As we have previously acknowledged, while they may have become an established feature of the law-making process in this country, they remain a 'constitutional oddity'. That is: they are pushing at the boundaries of the constitutional principle that only Parliament may amend or repeal primary legislation.

Where the further use of such powers is proposed in a Bill, we have argued that the powers must be clearly limited, exercisable only for specific purposes, and subject to adequate parliamentary oversight. **When assessing a proposal in a Bill that fresh Henry VIII powers be conferred, we have argued that the issues are 'whether Ministers should have the power to change the statute book for the specific purposes provided for in the Bill and, if so, whether there are adequate procedural safeguards'. In our view, the Public Bodies Bill [HL] fails both tests.**⁷

Dadleuodd y Pwyllgor Cyfansoddiadol nad oedd Llywodraeth y DU wedi gwneud yr achos i ddangos pam y dylid diddymu, uno neu addasu'r amrywiaeth a'r nifer eang o gyrff statudol y mae'r Mesur hwn yn effeithio arnynt drwy rym Gorchymyn Gweinidogol yn unig, yn hytrach na thrwy welliannau deddfwriaethol cyffredin a dadl yn y Senedd. O ran trefniadau diogelu a chyfyngiadau, nododd:

Under clause 10, ministerial orders to abolish, merge, or modify (etc) a public body are subject to the affirmative resolution procedure. This is a necessary procedural safeguard (and, as such, we welcome it) but of itself it is far from sufficient. Two comments may be made in this regard. First, unlike in the Legislative and Regulatory Reform Act 2006, no mention is made in the Public Bodies Bill [HL] of 'super-affirmative resolution procedure' (see section 18 of the 2006 Act). This procedure requires Ministers to take into account any representations, any resolution of either House, and any recommendations of a parliamentary committee, in respect of a draft order (a draft order being laid for a period of 60 days). Secondly, and again unlike in the Legislative and Regulatory Reform Act, there is in the Public Bodies Bill [HL] no requirement on Ministers to consult with interested or affected parties before an order is made. This strikes us as an unacceptable omission. Under the Legislative and Regulatory Reform Act (section 12) not only must there be consultation, but following that consultation the Minister must lay his order in draft, and it must be accompanied by an explanatory document.⁸

Nododd y Pwyllgor Cyfansoddiadol hefyd ei bod yn ymddangos bod y Mesur Seneddol, fel y'i drafftwyd, yn caniatáu i newidiadau i nifer o gyrff cyhoeddus amrywiol gael eu cynnwys mewn un Gorchymyn Gweinidogol. Mae'n bosibl, hyd yn oed, fod cyrff o'r fath yn gweithredu o fewn meysydd polisi digyswllt. Mynegodd bryderon fod 'Gorchymynion omnibws', sy'n cynnwys ystod o wahanol sefydliadau,

⁶ [Pwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi, y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus \[Tŷ'r Arglwyddi\], y Chwched Adroddiad, 2010-2011, 4 Tachwedd 2010.](#)

⁷ Ibid.

⁸ Ibid.

yn golygu bod mwy o anawsterau eto o ran sicrhau gwaith craffu seneddol effeithiol.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad cryf a ganlyn:

The Public Bodies Bill [HL] strikes at the very heart of our constitutional system, being a type of 'framework' or 'enabling' legislation that drains the lifeblood of legislative amendment and debate across a very broad range of public arrangements. In particular, it hits directly at the role of the House of Lords as a revising chamber.

The Public Bodies Bill [HL] is concerned with the design, powers and functions of a vast range of public bodies. **We fail to see why such parliamentary debate and deliberation should be denied to proposals now to abolish or to redesign such bodies.**

Wrth gyflwyno'r Mesur Seneddol yn nadl yr Ail Ddarlleniad, nododd yr Arglwydd Taylor o Holbeach:

The coalition Government, following manifesto commitments of both coalition parties, are committed to the creation of a more transparent and accountable system of government in the United Kingdom. As part of this process, we are committed to making substantial reforms to the public bodies landscape. These reforms are long overdue. While we recognise the excellent work done by public bodies and their staff, we equally recognise the widely held view that what is often referred to as the quango state can add unnecessary complexity to public life, diluting the proper accountability of Ministers to the electorate.

The quango state has in the past suited both government and politicians. It has never suited the British public, who expect clarity and, as taxpayers, insist, rightly, that Ministers ensure that every pound the Government spend is spent efficiently and effectively. In 2009, £38.4 billion of public money was spent by public bodies; it is our duty to ensure that this expenditure is properly focused and that all public bodies are fit for purpose.⁹

Tra bo'r rhan fwyaf o'r siaradwyr ar ddwy ochr y Tŷ'n cytuno â diben y ddeddfwriaeth, mynegodd y rhan fwyaf ohonynt bryderon difrifol ynghylch strwythur y Mesur Seneddol. Cyflwynodd yr Wrthblaid welliant a fyddai'n caniatáu i Bwyllgor Dethol a sefydlwyd yn arbennig graffu ar y Mesur Seneddol, yn hytrach na Phwyllgor o'r Tŷ Cyfan, ond methodd hwn. Dywedodd y Farwnes Royall o Blaisdon, Arweinydd yr Wrthblaid:

As noble Lords will be aware, in the normal course of affairs this House does not overturn draft orders that are subject to the simple affirmative procedure. However, the procedure that the Government are proposing so overloads the practice and principle of secondary legislation that we give them fair notice that the circumstances of the Bill are such that it may well be right in this instance not to follow that approach. In this we are in line with the conclusions of the most recent examination of the convention carried out by a Joint Committee of both Houses, chaired by my noble friend Lord Cunningham of Felling. The Joint Committee's report, approved by all parties in both Houses, states that the House of Lords should not regularly reject statutory instruments but that in exceptional circumstances it may be appropriate for it to do so. One exceptional circumstance mentioned by the

⁹ [Trafodion Tŷ'r Arglwyddi, 9 Tachwedd 2010, colofnau 63-4](#)

committee is when a parent Act was a skeleton Bill and the provisions of the SI are of the sort more normally found in primary legislation. This is exactly the circumstance that we are in with this Bill. It is precisely this kind of provision in the Bill that a Select Committee would be best placed to consider.¹⁰

Dyweddod yr Arglwydd Woolf, cyn Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, ei fod yn ystyried bod y Mesur yn fater o bryder difrifol i'r farnwriaeth. Roedd ganddo bryderon oherwydd bod y cyrff yn Atodlen 7 yn cynnwys cyrff sy'n ymwneud yn agos ac yn uniongyrchol â gweinyddu cyfiawnder sifil a throseddol yn y wlad hon. Dyweddod hefyd:

I have to say to the Minister that I do not believe that this Bill, in so far as it refers to the bodies that I have indicated, is consistent with the Constitutional Reform Act. I do not believe that there was any proper consultation before these bodies were included. They were included because they properly can be described as quangos, but it is not because they are quangos that they should be subject to the truncated procedure.¹¹

Fodd bynnag, roedd yr Arglwydd Freeman yn credu bod y Mesur Seneddol yn adnewyddu cyfrifoldeb Gweinidogol. Dyweddod:

It is an anachronism that in this Chamber and in the other place one cannot directly question a Minister about the performance of a non-departmental public body, although obviously there can be correspondence. As a democrat I am in favour of improving that ministerial responsibility, and under the Bill that will happen.¹²

Dyweddod yr Arglwydd Mayhew o Twysden, cyn Dwrnai Cyffredinol:

Lastly, I come to the worst bit of all. By Clause 11, which we now know so well, Ministers are permitted by order to bring any of the 150 bodies listed in Schedule 7 into the ambit of the proceeding six schedules. We heard the sort of judicial bodies that are caught by that in a compelling speech by the noble and learned Lord, Lord Woolf, which was endorsed entirely by the noble and learned Baroness, Lady Scotland. The Explanatory Notes rather engagingly confess at paragraph 87 that at the time of going to press there was,

"no policy intention to make changes to their status or functions".

In other words, Clause 11 is included in the Bill on a "just in case" basis. That is no basis for taking Henry VIII powers or, indeed, many other powers. The clause is inappropriate for subordinate legislation, and it should be removed from the Bill.¹³

Dyweddod yr Arglwydd Crughywel, sy'n eistedd ar Bwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi:

I say to my noble friend Lord Taylor of Holbeach that if he wants his Bill, as I do, he would be very wise to offer the super-affirmative resolution procedure used in the Legislative and Regulatory Reform Act 2006, which requires Ministers to take into account any representations, any resolution of either House and any recommendations of a parliamentary

¹⁰ [Trafodion Tŷ'r Arglwyddi, 9 Tachwedd 2010, colofn 71](#)

¹¹ Ibid. colofnau 75-6

¹² Ibid. col.85

¹³ Ibid. col.96

committee in respect of a draft order, laid for 60 days, particularly where, perhaps quite recently, there has been lengthy scrutiny of the legislation that brought the bodies into existence. Would it also not be wise to follow another precedent established by the 2006 Act, which is that there must be consultation with affected parties and that, following the consultation, the order must be laid in draft accompanied by an explanatory document? Those steps would provide substantial reassurance that the more controversial changes can be adequately examined, which would be further strengthened by an undertaking from Ministers that the legislation would be used never to increase but only to reduce the powers of public bodies.¹⁴

Mynegodd yr holl Arglwyddi o Gymru a siaradodd bryderon ynghylch y Mesur Seneddol. Dywedodd yr Arglwydd Elsytan-Morgan nadoedd yn sicr a oedd modd achub y Mesur¹⁵, a dywedodd yr Arglwydd Roberts:

the precedent established here of a massive subjection of public bodies, largely established by primary legislation, to possible change by secondary legislation is not a happy one.¹⁶

Mynegodd y Farwnes Finlay bryderon ynghylch y darpariaethau i ddiddymu swyddfa'r Prif Grwner.¹⁷

Yn dilyn dadl yr Ail Ddarlleniad, ystyriwyd y Mesur Seneddol hefyd gan Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol Tŷ'r Arglwyddi. Nododd ei adroddiad:

The Committee considers that the powers contained in clauses 1 to 5 and 11 as they are currently drafted are not appropriate delegations of legislative power. They would grant to Ministers unacceptable discretion to rewrite the statute book, with inadequate parliamentary scrutiny of, and control over, the process.¹⁸

3. Materion datganoli

Bydd y Mesur Seneddol yn cael ei weithredu ym mhob rhan o'r DU. Gofynnodd yr Arglwydd Foulkes o Cumnock am eglurhad gan y Gweinidog yn ystod dadl yr Ail Ddarlleniad ynghylch beth fyddai hyn yn ei olygu'n ymarferol:

Lord Foulkes of Cumnock: My Lords, will the Minister clarify the position in relation to United Kingdom bodies like the Forestry Commission or the Security Industry Authority should the Scottish Government disagree with the United Kingdom Government? How would the matter be resolved?

Lord Taylor of Holbeach: There has been a dialogue with the devolved authorities throughout the course of the Bill. This is a continuing process. There is a separate chapter on the Forestry Commission; I will speak to that shortly. It is a matter of debate. There is no division of view between the United Kingdom and the devolved authorities on this at this stage.

¹⁴ [Trafodion Tŷ'r Arglwyddi, 9 Tachwedd 2010, colofnau 135-6](#)

¹⁵ *Ibid.* col.139

¹⁶ *Ibid.* col.148

¹⁷ *Ibid.* colofnau 81-2

¹⁸ [Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol Tŷ'r Arglwyddi, y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus, y Pumed Adroddiad, 2010-2011, 10 Tachwedd 2010](#)

Lord Foulkes of Cumnock: It is my understanding that the Scottish Government are of a different view from the United Kingdom Government in relation to both the Security Industry Authority and the Forestry Commission, so this is not a theoretical problem. I am asking the Minister not what discussions have taken place but, when there is a dispute, how it is to be resolved. It is not clear from the Bill how any resolution can take place.

Lord Taylor of Holbeach: The Bill has proceeded on consensus. I do not imagine that it will deviate from that course in the future.¹⁹

Mae cymal 9 o'r Mesur Seneddol yn cyfyngu ar bwerau Gweinidogion y DU mewn perthynas â materion datganoledig. Ar gyfer y Gorchmynion a wneir o dan gymalau 1-6, sy'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru, **mae angen caniatâd Gweinidogion yr Alban, Adran berthnasol Gogledd Iwerddon neu Weinidogion Cymru, yn eu tro.** Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor Cyfansoddiadol:

We are concerned that it should be the consent of the Scottish Parliament, the Northern Ireland Assembly and the National Assembly for Wales which should be obtained in these circumstances. We note that the protection afforded to the devolved institutions is considerably stronger in sections 9-11 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 than that which is offered in this Bill.²⁰

Mae'r adran yn *Neddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006* sy'n berthnasol i Gymru, y cyfeirir ato yn y dyfyniad, yn nodi:

11 Wales

An order under this Part may not make any provision—

- (a) conferring a function on the Assembly,
 - (b) modifying or removing a function of the Assembly, or
 - (c) restating any provision which confers a function on the Assembly,
- except with the agreement of the Assembly.²¹

4. Y goblygiadau i Gymru

4.1. Y pwerau i Weinidogion Cymru greu corff amgylcheddol newydd

Ar 6 Gorffennaf 2010, cyflwynodd Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ddatganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol yn datgan mai un o'r pethau pwysig mewn fframwaith ar gyfer yr amgylchedd naturiol yw archwilio a yw'r trefniadau cyflenwi presennol yn addas ar

¹⁹ Trafodion Tŷ'r Arglwyddi, 12 Tachwedd 2010, colofnau 66-7

²⁰ [Pwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi, Y Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus \[Tŷ'r Arglwyddi\], Chweched Adroddiad, 2010-2011, 4 Tachwedd 2010.](#)

²¹ [Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 \(c.51\)](#)

gyfer anghenion yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod cyfnod o gyfyngiadau economaidd. Nododd hefyd:

Rwyf i ac Elin Jones [y Gweinidog dros Faterion Gwledig] erbyn hyn wedi cytuno y dylem fynd ymhellach na hynny, ac y dylem fynd ati ar y cyd i ystyried ailstrwythuro mwy sylfaenol ar drefniadau a swyddogaethau cyflenwi yng Nghymru. Y nod yn hyn o beth yw cynnig y gwerth gorau posibl am arian wrth gyflenwi dull ecosystemau integredig ar gyfer yr amgylchedd naturiol. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar wahanol swyddogaethau, gan gynnwys costau a buddion posibl cael cyrff ar wahân yng Nghymru, ac uno rhai o'r cyrff cyflenwi, neu bob un ohonynt. Bydd yr adroddiad cychwynnol yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref..²²

Os gwneir achos cryf dros ailstrwythuro, yna byddai'r rheiny yr effeithir arnynt yn chwarae rhan lawn mewn unrhyw gynlluniau sy'n cael eu datblygu a byddai angen gwneud deddfwriaeth at y diben hwnnw.

Byddai cymalau 13-16 o'r Mesur Seneddol yn rhoi pwerau penodol i Weinidogion Cymru ddiwygio cyrff amgylcheddol yng Nghymru. Dywedodd yr Arglwydd Taylor o Holbeach wrth Dŷ'r Arglwyddi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud cais am y pwerau hyn i'w galluogi i wneud newidiadau yn dilyn ei hadolygiad presennol o reoliadau amgylcheddol.

Nododd yr Arglwydd Morris o Aberafan:

There are a number of clauses referring to the National Assembly for Wales. In the absence of a proper briefing, the idea of enabling legislation bringing together the functions of the Countryside Commission, the Environment Agency and Forestry Commission Wales appears very appealing, since agriculture is already a devolved matter.

Mae cymal 13(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, yn amodol ar weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad, i addasu, diddymu neu ychwanegu at swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae cymal 13(2) i (4) yn darparu ar gyfer Gorchmynion i drosglwyddo swyddogaethau rhwng Gweinidogion Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mynegodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol Tŷ'r Arglwyddi bryderon tebyg ynghylch y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn y cymal hwn, fel y gwnaeth ynghylch y pwerau a roddwyd i Weinidogion y DU yng nghymalau 1-5. Dywedodd hefyd:

There is a further aspect which seemed to the Committee to call for an explanation which is not provided in the memorandum. It is apparent from clause 13(7) that orders under subsection (7) should be capable of applying to matters which are not within the legislative competence of the NAW (see subsections (7)(a), (c) and (d) and (8)). It is by no means unprecedented for Welsh Ministers to have power to make subordinate legislation in relation to matters about which the NAW could not enact a measure. But these are no ordinary powers, for they involve re-writing the statute book. The net result of what is proposed here

is that Parliament should delegate to Welsh Ministers the power to amend Acts of Parliament in matters as respects which Parliament has not delegated to the NAW the power to amend Acts of Parliament by enacting measures, and all subject to no Parliamentary control at Westminster whatsoever. **The Committee calls to the attention of the House this unexplained aspect of clause 13, so that it might seek an explanation from the Government.**

Dylid nodi bod *Deddf Llywodraeth Cymru 1998* hefyd wedi rhoi'r pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (a oedd yn gorff corfforaethol bryd hynny) ddiwygio neu ddiddymu cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Yn benodol, roedd Adran 28 ac Atodlen 4 i Ddeddf 1998 yn rhoi'r pwerau i'r Cynulliad ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy Orchymyn er mwyn ailstrwythuro cyrff penodol a noddir gan y Cynulliad drwy drosglwyddo'r swyddogaethau i gwangos eraill, llywodraeth leol neu'r Cynulliad, neu drwy ddiddymu swyddogaethau neu gwangos cyfan.²³

Ar 25 Hydref 2010, cyhoeddodd Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, eglurhad ar ddyfodol Comisiwn Coedwigaeth Cymru:

Recent media reports suggesting that Welsh forests would be among those to be sold off are unhelpful, misleading and without foundation. Forestry is a devolved matter and decisions affecting the future of Wales's national forests lie with Welsh Ministers, not with Westminster.

I believe the national forest is an important asset to Wales, providing access, employment, support for the timber and tourism industries and has a major role to play in helping us to tackle climate change.

The activities of the Forestry Commission in Wales are currently under review as part of the wider review of environmental delivery bodies which will be concluded early next year. I am also in contact with my counterparts in England and Scotland to ensure that the needs of Wales are considered as part of any proposals to change the management of forestry in England.²⁴

4.2. S4C

Ar 14 Hydref 2010, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Jeremy Hunt AS, Gweinidog Diwylliant y DU, y byddai trefniadau ariannu S4C yn cael eu diwygio. Nododd datganiad i'r wasg yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

The Broadcasting Act 1990 (as amended) includes a provision that S4C will be funded at the level it was in 1997, then increased annually by the amount of the Retail Price Index. The

²² [Datganiad ysgrifenedig, Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Opsiynau Cyflenwi Amgylcheddol, 6 Gorffennaf 2010.](#)

²³ [Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, *The Reform of Assembly Sponsored Public Bodies*, Papur Ymchwil 04/0020, 2004.](#)

²⁴ [Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gweinidog yn gwrthod honiadau yn y cyfryngau fod holl fforestydd cenedlaethol Prydain i gael eu gwerthu*, 25 Hydref 2010.](#)

Government considers that this is unsustainable in the current financial climate and intends to change it so that the Secretary of State will determine the level of funding.²⁵

Felly, rhestrir S4C yn Atodiad 4 i'r Mesur Seneddol fel corff y gall Gweinidogion wneud Gorchymyn ar ei gyfer i ddiwygio ei drefniadau ariannu. Fe'i rhestrir hefyd yn Atodiad 7 fel corff y gellir ei symud i Atodlenni eraill lle gellid diddymu, uno neu newid ei drefniadau cyfansoddiadol drwy Orchymyn Gweinidogol.

Gan ddechrau ym mis Ebrill 2013, bydd y BBC yn gwneud cyfraniad ariannol sylweddol tuag at weithredu S4C, y tu hwnt i'r rhaglenni presennol a gynhyrchir. Mae rhai wedi mynegi pryderon ynghylch y ffaith y bydd S4C yn colli ei annibyniaeth ac na fydd yr arian yn cael ei ddiogelu.

Gwnaeth Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ddatganiad ynghylch S4C ar 22 Medi, pryd y dywedodd:

Yr wyf wedi ysgrifennu at Jeremy Hunt AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon i fynegi pryder ynglŷn â'r toriadau o £2 filiwn i gyllid S4C, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Yr wyf wedi gofyn am sicrwydd na fydd y toriadau hyn yn golygu y bydd cyllid S4C yn gostwng yn is na'r swm a gyfrifwyd yn Neddf Darlledu 1990, ac yr wyf wedi gofyn am gyfarfod, fydd yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf. Yn ogystal â hyn mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn amlinellu pryderon Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â sefyllfa ariannol S4C.

Yr ydym yn ymwybodol bod yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cynnal trafodaethau gydag S4C mewn perthynas â chyllideb S4C yn y dyfodol. Yr ydym yn credu y dylid trin S4C yn yr un ffordd â darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill o ran y trafodaethau ynglŷn â'i dyfodol hirdymor a chyllido. Serch hynny, mae'n rhaid i hyn ddigwydd o fewn cyd-destun y trefniadau a bennwyd ac y cytunwyd arnynt o dan y Ddeddf Darlledu.²⁶

Yn nadl yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi, dywedodd yr Arglwydd Elystan-Morgan:

It is my contention that this body is wholly unique. It is unique because it was set up with a commission. That commission was that it should do everything within its power - indeed, its existence is based on this - to preserve the life and future of the Welsh language. It is unique also in relation to the scene that existed 28 years ago when it was set up, when there had for many years in Wales been a long, bitter campaign of civil disobedience and lawlessness against those opposed to a Welsh channel. William Whitelaw, a man of immense understanding, diplomacy and integrity, ultimately came to a compact with the Welsh people and said, "You will have your channel". A legislative framework was set up that guaranteed funds for the channel that would be adequate for it to carry out its commission. Indeed, its independence was guaranteed by statute.

²⁵ [Yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, *Improving efficiency and transparency: DCMS cuts quangos*, 096/10, 14 Hydref 2010](#)

²⁶ [Datganiad Cabinet Llafar, Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, S4C, 22 Medi 2010.](#)

The viability of that channel is now challenged and jeopardised by the fact that that financial guarantee disappears. The independence is jeopardised by the fact that it is contemplated that it should be merged with the BBC as a very junior, meagre partner. Its independence cannot possibly be real in those circumstances; indeed, the major decisions may well be taken by the broadcasting trust in London.²⁷

Nododd yr Arglwydd Roberts o Gonwy:

The Welsh channel authority is also included in Schedule 7 as a body that may be shifted to another schedule, possibly relating to a change in its constitution. Again, the essence of that change, and what it is hoped to achieve, has been spelt out by the Secretary of State for Culture, Media and Sport. Of course, at the end of the day such changes as are made will be by secondary legislation, with all its parliamentary limitations, to a body established and developed by primary legislation over some years and after a great deal of discussion. Such extensive discussion may again be necessary, judging by the ferment in Wales at present, but that would be possible only with primary legislation.²⁸

Dechreuodd un o bwyllgorau Tŷ'r Arglwyddi drafod y *Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus* ar 23 Tachwedd a bydd yr Arglwydd Roberts yn gosod gwelliant sy'n galw ar Lywodraeth y DU i beidio â chynnwys S4Cyn y Mesur hwn .

Ar 10 Tachwedd 2010, ysgrifennodd Syr Michael Lyons, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, at John Walter Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C.

Dyweddodd:

Regarding the spending review announcement, Jeremy Hunt has made clear that having decided to reduce its own funding for S4C as part of the Comprehensive Spending Review, the Government decided that a new partnership model with the BBC was the best way of securing the long term future of the service and this proposition was put to the BBC in the context of discussions on a new licence fee settlement.

We now need to work together to take forward this policy. A new arrangement will see the BBC build upon its commitment to the provision of a broad range of Welsh language services – with the new, additional responsibility for funding a large part of a high quality S4C service. I want to be clear with you, and other members of the S4C Authority, that the BBC has no ambitions to take over S4C. We are committed to a creatively independent S4C, which attracts revenue from a range of sources, including the licence fee. We share your determination that S4C should retain its strong relationship with the independent production sector in Wales.²⁹

Ar 17 Tachwedd 2010, trafododd y Cynulliad Cenedlaethol y cynnig, *Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn credu bod S4C annibynnol yn hanfodol ar gyfer dyfodol darlledu cyhoeddus a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru*, a osodwyd gan Aelodau o'r pedair plaid. Nid oedd nifer o'r siaradwyr yn fodlon â'r sylw a

²⁷ Trafodion Tŷ'r Arglwyddi, 9 Tachwedd 2009, colofnau 140-41

²⁸ Ibid. col.147

²⁹ [Lythyr gan Syr Michael Lyons, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, at John Walter Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C, 10 Tachwedd 2010](#)

wnaeth Syr Michael yn y llythyr ar hyd y trywydd y byddai angen i Ymddiriedolaeth y BBC gael trosolwg i sicrhau bod ffi'r drwydded yn cael ei wario'n dda. Roedd rhai Aelodau'n dehongli hyn i olygu y byddai'r BBC yn cymryd yr awenau. Adlewyrchwyd y pryderon hyn yn sylwadau'r Gweinidog dros Dreftadaeth:

I will add that I share Rhodri Glyn Thomas's concerns about Sir Michael Lyons's letter, because there was some suggestion in that letter that the BBC would take over the service in the future, with some supervisory role over all that was happening.

Cymeradwywyd y cynnig yn unfrydol.³⁰

4.3. *Uno Sport England ac UK Sport*

Mae Llywodraeth y Du yn cynnig uno Sport England â UK Sport. Mae hyn wedi codi cwestiynau ynghylch y trefniadau ariannu ar gyfer cyrff chwaraeon yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dywedodd yr Athro Laura MacAllister, cadeirydd Chwaraeon Cymru:

recent government announcements about mergers and abolitions were startling in their lack of devolutionary sensitivity. By way of illustration, UK Sport and Sport England are to merge, English sports minister Hugh Robertson tells us.

Fine...if sport were not a devolved matter and if there had been proper consultation and agreement from the home nations. UK Sport has shown itself to be an effective coordinator of provision for high-performance athletes from the four nations in the UK, especially at Olympic and Paralympic level.³¹

Gofynnodd Michael McCann, Aelod o Senedd yr Alban, i'r Is-Weinidog Hugh Robertson AS, am hyn yn Nhŷ'r Cyffredin:

Hugh Robertson: My apologies, Mr Speaker. They discussed bringing together UK Sport and Sport England, and that was also discussed at an inter-ministerial meeting on 13 September. I also met my devolved counterparts to discuss the issue when I was in Delhi and I have, of course, discussed it with many others in sport and inside the two bodies.

Mr McCann: Recent correspondence from the Scottish Executive somewhat complacently suggests that they are merely aware of the proposed merger. Given UK Sport's responsibilities for the world-class performance programme across the United Kingdom, how will the Minister ensure that there is a fair distribution of financial support for our elite athletes?

Hugh Robertson: That was one of the issues that we discussed in Delhi. I am sure that it will not have escaped the hon. Gentleman's notice that part of the comprehensive spending

³⁰ Cofnod y Trafodion, 17 Tachwedd 2010

³¹ [Yr Athro Laura MacAllister, Cutting quangos – let's learn a lesson from Wales, Public Service.co.uk, 15 Hydref 2010.](#)

review announced on Wednesday was framed by a decision to increase the amount of money going in to sport. We were able to announce not only that we would stick to the original spending limits envisaged for London 2012 and would honour those commitments in full, but that UK Sport would have the same level of funding, or slightly better, for the start of the Rio cycle than it is enjoying this year.³²

4.4. *Y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr*

Bydd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael ei ddiddymu. Mae'r Bwrdd yn gorff annibynnol sydd â rhwymedigaeth statudol i osod isafswm y cyflogau ar gyfer gweithwyr mewn amaethyddiaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae gan y Bwrdd hefyd bwerau yn ôl disgrisiwn i benderfynu ar delerau ac amodau cyflogaeth eraill, fel gwyliau a thâl salwch.

Ar 22 Gorffennaf, dywedodd y Gwir Anrhydeddus Caroline Spelman AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Materion Gwledig ac Amaethyddiaeth:

today I am announcing that we will be seeking agreement with the Welsh Assembly Government to abolish the Agricultural Wages Board. In England, we will be taking measures to bring agricultural workers within the scope of the National Minimum Wages ActWe are discussing with the Welsh Assembly Government the arrangements they wish to propose in respect of Wales.

Bydd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn cael ei ddiddymu yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn ateb llafar yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Hydref 2010, awgrymodd Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, fod y penderfyniad hwn wedi cael ei wneud yn anfoddog:

Joyce Watson: You sent me a letter recently outlining the decision to scrap the Agricultural Wages Board for England and Wales. I recognise that you were forced to take that decision, as a result of the Secretary of State for the Environment, Food and Rural Affairs' plans to abolish several arm's length bodies. I am greatly concerned by the board's abolition, as it will result in farmworkers' and craftsmen's pay safety net being taken away from them. This is profoundly unfair and represents a regression of the work of the Labour Government to ensure fair pay for workers. Do you agree with me, Minister, that the decision of the Westminster Government to abolish a body whose function it was to make sure that people earn a decent wage is representative of the Liberal Democrats-supported Tory party's ideology of considering the loss of people's livelihoods as a price worth paying?

Elin Jones: I share your frustration and disappointment at the speed at which this decision has been taken and its implication for us in Wales. My decision to agree to the change as pushed forward by the Department for Environment, Food and Rural Affairs was made reluctantly. I had the option to consider whether we could establish a Wales-only agricultural wages board, although that decision would have required considerable work as well as considerable budget funding allocation. It was clear that DEFRA did not intend to devolve any

³² Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 25 Hydref 2010, col.12

budget to us, should we have taken that decision. I am disappointed that we are losing the work that the agricultural wages board has undertaken for workers in Wales. I think the decision should have been taken with due consultation. There was absolutely no consultation with agricultural workers, their representatives or communities in general; nor was there adequate consultation with this Government.³³

Mae'r undeb Unite ac Undeb Amaethwyr Cymru yn gwrthwynebu diddymu'r Bwrdd, er bod Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr o blaid hynny.

4.5. *Dyfrffyrdd Prydain*

Ar hyn o bryd, mae Dyfrffyrdd Prydain yn gorfforaeth gyhoeddus sy'n atebol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Mae'n cynnal a rheoli'r dyfrffyrdd fel eu bod yn cyrraedd eu potensial llawn yn economaidd, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac o ran treftadaeth. Yr adran sy'n ei noddi yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig dros Gymru a Lloegr yn y DU, a'r Adran Drafnidiaeth, Seilwaith a Newid yn yr Hinsawdd yn yr Alban. Mae hefyd mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'i gynllun i ddiwygio cyrff cyhoeddus, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu ailgyflunio rhwydwaith Dyfrffyrdd Prydain yng Nghymru a Lloegr fel ymddiriedolaeth elusennol, yn debyg i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Bydd yr elusen yn parhau i gael ei hariannu drwy gyfuniad o grantiau gan y Llywodraeth, incwm o drwyddedau cychod, grantiau trydydd parti a gweithgareddau masnachol. Y prif newid fyddai sefydlu contract hirdymor wedi'i warantu â'r Llywodraeth; 'clo elusennol' ar waddol eiddo Dyfrffyrdd Prydain; a chasglu incwm o ostyngiad yn y dreth a ffynonellau elusennol (ee rhoddion, etifeddiaethau, ac ati).

Defnyddir y pwerau i wneud Gorchmynion o dan y *Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus* i drosglwyddo busnes Dyfrffyrdd Prydain, gan gynnwys ei bwerau a'i rwymedigaethau, i elusen ddyfrffyrdd newydd. Fe'i rhestrir yn Atodlenni 5 a 7 i'r Mesur.

Bydd craidd yr elusen newydd yn cynnwys rhwydwaith bresennol Dyfrffyrdd Prydain o'r camlesi a'r afonydd yng Nghymru a Lloegr. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi datgan ei bwriad i archwilio'r posibilrwydd o gynnwys afonydd eraill y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn eu rheoli ar hyn o bryd.

³³ Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2010.

Roedd Dyfrffyrdd Prydain eisoes yn ystyried newid i gael statws elusennol, ac mae ganddo gefnogaeth elusen sy'n bodoli eisoes, sef y Gymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol. Dywedodd Clive Henderson, Cadeirydd Cenedlaethol y Gymdeithas:

A great deal of work is now required so that the charity can have a successful launch and we expect to play our part. First, it must be financially viable from day one. The National Trust was not an overnight success and started from small beginnings. The new charity does not have the opportunity to grow over time – it has to be up and running immediately – and engaging with the public, securing new revenue streams, will take some time.³⁴

Bydd Llywodraeth yr Alban yn penderfynu ar wahân a yw'n dymuno cynnwys dyfrffyrdd yr Alban yn y corff newydd ai peidio.³⁵

4.6. Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yw cynghorydd annibynnol Llywodraeth y DU ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'n adrodd i Brif Weinidog y DU, Prif Weinidogion Cymru a'r Alban, a Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon. Yn 2009, daeth y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (CDC) yn gorff anadrannol gweithredol. Cyhoeddodd DEFRA ei benderfyniad i ddiddymu'r Comisiwn ym mis Gorffennaf 2010. Fodd bynnag, roedd hefyd yn ariannu swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd yn ariannu'r Comisiwn yng Nghymru tan ddiwedd mis Mawrth 2011.

Mae Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, wedi cyhoeddi cynnig i gyfuno cylch gorchwyl Cynnal Cymru – Sustain Wales, y CDC yng Nghymru ac ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd i greu un corff. Cynhaliwyd digwyddiad i'r rhanddeiliaid ar 17 Tachwedd 2010 ac mae ymgynghoriad ar y cynigion yn cael ei gynnal tan ddiwedd mis Rhagfyr 2010.

Dyma amcanion drafft y corff newydd:

- Hyrwyddo datblygu cynaliadwy fel yr egwyddor drefnu ganolog ym mhob sector a chymuned yng Nghymru, yn unol â Chynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru;
- Arwain camau sbarduno ar gyfer datblygu cynaliadwy ac, o fewn hyn, mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd ym mhob sector o gymdeithas ddinesig Cymru. Bwriedir cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:
 - lledaenu gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy a'i hyrwyddo;
 - cefnogi'r newid mewn ymddygiad a'r camau sydd angen eu cymryd i hyrwyddo Cymru fwy cynaliadwy; ac

³⁴ [Y Gymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol. IWA welcomes Government confirmation that British Waterways is to become a charitable body, Datganiad i'r Wasg, 14 Hydref 2010.](#)

³⁵ Gwefan Dyfrffyrdd Prydain

- ymgysylltu â chymdeithas ddinesig Cymru, a datblygu ei capasiti, i gymryd camau ar gyfer datblygu cynaliadwy;
- Hysbysu ymarferwyr a chynyddu'r capasiti yn eu mysg ynghylch yr atebion a'r camau y mae angen eu cymryd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru;
- Casglu'r rhanddeiliaid sy'n cynrychioli sectorau neu faterion penodol ynghyd a datblygu partneriaethau i fynd i'r afael â'r materion anodd ar sail ymagwedd 'cynghrair y bodlon';
- Cynghori Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar y polisiau y mae eu hangen i hyrwyddo a rhoi datblygu cynaliadwy ar waith a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Awgrymodd Llywodraeth Cymru hefyd:

Gallai'r trefniadau newydd gael eu harwain gan un comisiynydd gyda'r awdurdod i weithredu fel sylwebydd/ymgyngorydd uchel ei barch yn y llywodraeth a bywyd cyhoeddus ar ddatblygu cynaliadwy.³⁶

4.7. *Y goblygiadau i gyrff eraill sy'n gweithredu yng Nghymru*

- Mae'r **Gofrestrfa Tir**, a sefydlwyd yn 1862, yn cofrestru'r teitlau i dir yng Nghymru a Lloegr, yn cofnodi'r gwaith ar dir wedi'i gofrestru (er enghraifft, gwerthu a morgeisi), ac yn gwarantu'r teitlau i ystadau cofrestredig a buddiannau mewn tir. Cynigir y bydd y Gofrestrfa Tir yn cael ei chadw ond y bydd y cwmpas ar gyfer buddsoddiad gan y sector preifat yn cael ei archwilio. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnal astudiaeth dichonoldeb ar fuddsoddiad y sector preifat yn y Gofrestrfa Tir yn y dyfodol ac mae'n bwriadu cyhoeddi adroddiad ar ddechrau 2012.
- Bydd y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yn cael ei gadw ond bydd yn cael ei ddiwygio'n sylweddol, gyda phwyslais ar ei rôl rheoleiddio.

Ni fydd rhai o gyrff cyhoeddus y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithredu fel gyrff cyhoeddus anadrannol bellach:

- Bydd **Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr** yn cael ei ddiddymu a bydd ei swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Bydd y **Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol** yn dod yn asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Mae **byrddau'r llysoedd** yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi i sicrhau bod y llysoedd yn cael eu gweinyddu'n

³⁶ [Llywodraeth Cynulliad Cymru, Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru: Y Dyfodol, Ymgynghoriad ar y Trefniadau Newydd, tudalen ar y we \[darllenwyd ar 23 Tachwedd 2010\]](#)

effeithiol ac yn effeithlon. Nid yw byrddau'r llysoedd yn rheoli nac yn gweinyddu'r llysoedd, ond yn hytrach yn rhoi cyngor ac yn gwneud argymhellion i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau gweinyddol a ddarperir. Mae tri o'r rhain yng Nghymru, a byddant yn cael eu diddymu.

Mae'r **Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd** yn adolygu'r system cyfiawnder gweinyddol gyfan gyda'r bwriad i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad iddi, a'i bod yn deg ac yn effeithlon. Sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Cymreig yn 2008. Ym mis Ionawr 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad arbennig cyntaf yn dilyn ei adolygiad o'r triwlynlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru. Rhoddodd John Griffiths AC, y Cwnsler Cyffredinol, y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad mewn datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Tachwedd 2010. Bydd y triwlynlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru yn gyffredinol yn dod o dan ddau gategori. Mae "triwlynlysoedd Cymreig" yn gweithredu mewn meysydd datganoledig ac mae'r holl gyfrifoldeb gweithredol dros y triwlynlysoedd hynny, neu rywfaent ohono, wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Ceir triwlynlysoedd trawsffiniol hefyd sy'n gweithredu mewn meysydd na ddatganolwyd. Nododd y Cwnsler Cyffredinol fod Llywodraeth y DU yn bwriadu diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd a'i Bwyllgor Cymreig, a nododd:

The AJTC has provided us with a valuable source of information and advice and it would have been useful to have had it to guide us through the implementation of the recommendations and to carry out further complementary work. Various options for maintaining some level of support are being examined currently.³⁷

³⁷ [Cofnod y Trafodion, Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol, Datganiad am Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adroddiad ar yr Adolygiad o'r Triwlynlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru, 16 Tachwedd 2010.](#)